**CYNGOR TREF**
**LLANFAIRFECHAN**
**TOWN COUNCIL**

**Neuadd Gymunedol Tref Llanfairfechan Ffordd y Pentref Llanfairfechan LL330AB**
**Maer Cyng Nia Jones Dirprwy Faer Cyng Sharne-Marie Bellis**

**AGENDA Nos Fercher Ebrill 8fed 2026**
**CYFARFOD Y CYNGOR TREF, 7yh Siambr Cyngor Llanfairfechan ac ar-lein drwy Microsoft Teams**

**Ymuno drwy Microsoft Teams:**
**https://teams.microsoft.com/meet/34247688164563?p=LE2DQw0TqgiEdnF3uq**
**Cyfeirnod Cyfarfod: 342 476 881 645 63**
**Cyfrinair: YL2nR7gc**

1. Croesawu pawb i'r cyfarfod a rhannu'r wybodaeth weinyddol gyffredinol
2. Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb (DLlL 1972 Atodlen 12)
3. Derbyn datganiadau o ddiddordeb – (Diddordebau personol neu ragfarnus y gellir eu datgelu)
4. Derbyn sylwadau ac ymholiadau gan y cyhoedd
5. Derbyn a chymeradwyo cofnodion Mawrth 18fed, 2026 a'r Rhestr Weithredu (DLlL1972 Atodlen 12)
6. Derbyn gwybodaeth bellach a chymeradwyo cynlluniau ar gyfer cefnogaeth AD 2026/27
7. Derbyn a chymeradwyo cais grant ar gyfer Cronfa Effaith Balchder Bro Sir Conwy
8. Derbyn a chymeradwyo grantiau s137
    - Ffi llogi ystafell flynyddol Clwb Brecwast Cyn-filwyr Llanfairfechan
    - Cais blynyddol Neuadd Gymunedol Llanfairfechan
9. Derbyn ac ystyried cais am gymorth ar gyfer croesfan i gerddwyr y tu allan i Ysgol Pant y Rhedyn
10. Derbyn a chymeradwyo adroddiadau ariannol a thaliadau cyfredol ar gyfer Ebrill 8fed, 2026

| **Taliadau i'w cyflwyno** |
|---|
| **1. Cyflogau staff Chwefror 2026 £5000.00 a thaliad chwarterol CThEF £1000** |
| **2. Worldcare - Sgipiau Cymunedol £258.00** |
| **3. Menter Iaith – gwaith cyfieithu Chwefror a Mawrth £608.72** |
| **4. Ghostbuskers (perfformiad Nadolig) £50.00** |
| **5. Neuadd Gymunedol Llanfairfechan - ffi llogi flynyddol Brecwast y Cyn-filwyr £400.00** |
| **6. G Roberts Atgyweirio mainc £182.00** |
| **7. 2x Pecyn Cyfrifo Scribe £88.80 (cyfanswm o £177.60)** |
| **8. Padiau diffibriliwr ar gyfer diffibriliwr Seagrass £125.00** |
| **9. Allwedd radar ar gyfer y toiled anabl £5.99** |
| **10. Cabinet i'w gloi gydag allwedd er mwyn storio allweddi yn storïwr y MUGA £9.76** |
| **11. Rhwyd tennis ar olwynion £808.64** |
| **12. Delwedd 365 e-bost a pharth llyw.cymru £1,491.12** |

11. Derbyn gwybodaeth am faterion cynllunio:
    - **0/53292** - Tri Saeth Parc Penmaen Llanfairfechan LL33 0RN
12. Derbyn gohebiaeth
    - Safle tacsi ar Ffordd y Pentref – Diweddariad gan CBSC
    - Problemau gydag elyrch – Diweddariad gan CBSC
    - Trigolion yn adrodd am godi sbwriel
13. Derbyn adroddiadau o gyfarfodydd a digwyddiadau:
    1. Cymorth Cynllunio Cymru - Gwella ein Lleoedd Lleol - Cyng Sharne- Marie Bellis
    2. Sesiynau Codi Sbwriel Gwanwyn Glân Cymru - Dirprwy Glerc
    3. Cyllid Dewi Sant a Hybiau Cynnes – Clerc y Dref
    4. Grŵp Ynni Cymunedol – Dirprwy Glerc
    5. Gweithgor Amddiffyn rhag Llifogydd – Dirprwy Glerc

**14.** Derbyn canmoliaethau, cwynion a materion brys i'w hystyried a'u cofnodi ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol.

**Nos Fercher Ebrill 8fed, 2026**

**CYFARFOD Y CYNGOR TREF, 7yh Siambr Cyngor Llanfairfechan ac ar-lein dros Teams**

**COFNODION**

**Yn bresennol: Cadeirydd: Dirprwy Faer Sharne-Marie Bellis, Maer Nia Jones; Cyn Rhys Griffiths; Cyng Andrew Hinchliff BEM; Cyng Chris Jones; Cyng Alun Rhys Jones; Cyng Christine Roberts; Cyng Leena Farhat (ar-lein); Cyng Preben Vangberg; Cynghorydd Sir Penny Andow (ar-lein); Clerc y Dref: Jayne Neal; Dirprwy Glerc y Dref: Callum Morrison**

**1. Croesawodd y Dirprwy Faer Sharne-Marie Bellis bawb i'r cyfarfod a chytunwyd ar recordio'r cyfarfod at ddibenion cadw cofnodion.** **Penderfynwyd derbyn a nodi**

**2. Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb (DLlL 1972 Atodlen 12)**

**Cyng Charlotte Murray** **Penderfynwyd derbyn a nodi**

**3. Derbyn datganiadau o ddiddordeb – (Diddordebau personol neu ragfarnus y gellir eu datgelu)**

**Cafodd datganiadau personol eu datgan gan y Maer Nia Jones, Cyng Andrew Hinchliff BEM, Cyng Christine Roberts a Chyng Chris Jones ar gyfer eitem 8 (cais blynyddol am grant s137 Neuadd Gymunedol Llanfairfechan) gan mai nhw ydy ymddiriedolwyr neu swyddogion yr elusen. Nodwyd na chaiff y cynghorwyr hyn bleidleisio yn ystod yr eitem hon.**

**Penderfynwyd derbyn a nodi**

**4. Derbyn sylwadau ac ymholiadau gan y cyhoedd**

**Dim yn bresennol** **Penderfynwyd derbyn a nodi**

**5. Derbyn a chymeradwyo cofnodion Mawrth 18fed 2025, a'r Rhestr Weithredu (DLlL1972 Atodlen 12)**

**Roedd y rhain wedi'u dosbarthu yn flaenorol a nodwyd eu bod wedi'u darllen. Nodwyd bod rhai mân gamgymeriadau wedi'u nodi a'u cywiro. Ni chafodd unrhyw newid sylweddol i'r cofnodion ei godi. Cafodd y materion canlynol o'r Rhestr Weithredu eu trafod: 1) Gollyngiad Dŵr ar Ffordd y Pentref: Mae Dŵr Cymru wedi cadarnhau bod y gollyngiad dŵr wedi'i atgyweirio'n llwyr gyda dim gwaith pellach yn ddisgwyliedig. 2) Roedd y Farchnad Fwyd a Chrefftwyr yn llwyddiannus iawn gyda 240 o bobl yn bresennol. Roedd helfa wyau, gweithgareddau crefftau gan y GRhA, ac roedd marchnadoedd eraill wedi gorfod cau oherwydd gwyntoedd cryfion oedd o blaid inni o ran niferoedd y bobl a ddaeth. 3) Sesiwn Paned a Sgwrs 2026/27: Mae 12 dysgwyr yn dod yn rheolaidd ac erbyn hyn mae 4 gwirfoddolwr sy'n helpu i redeg y sesiynau. Mae ganddo broffil da erbyn hyn gan fod y Swyddog Cydraddoldeb wedi gwneud gwaith da o'i hyrwyddo ar hyd ei holl rwydweithiau fel bod pobl yn Llanfairfechan a'r ardaloedd cyfagos yn ymwybodol o'r sesiynau. Mae'n costio tua £10 y sesiwn, ac mae peth o amser Bethan hefyd yn cael ei dreulio yn y sesiynau. Fodd bynnag, y bwriad ydy defnyddio'r gwirfoddolwyr fel eu bod yn gallu cynnal y sesiynau gyda Bethan yn 'rheoli' y sesiynau fydd yn lleihau'r llwyth gwaith. Nodwyd bod Bethan wedi ymgorffori'r prosiect hwn yn y rhwydwaith dysgwyr rhanbarthol ac fe gaiff ei hysbysebu gan Fenter Iaith a Phrifysgol Bangor. Nododd y Cynghorwyr eu bod am i'r sesiynau barhau, a bu awgrym ei fod yn cael ei ychwanegu at agenda'r cyfarfod nesaf fel bod modd gwneud penderfyniad ar gyllid ac ati. 3) Digwyddiad Codi Sbwriel - Ar Fawrth 26ain bu i'r Cyngor Tref gynnal dau ddigwyddiad codi sbwriel ar y cyd â digwyddiad 'Gwanwyn Glân' Cadwch Gymru'n Daclus. Roedd digwyddiad y bore yn sesiwn casglu sbwriel preifat gydag Ysgol Babanod ac Ysgol Pant-y-Rhedyn. Daeth cyfanswm o 90 o ddisgyblion i gymryd rhan oedd yn nifer wych. Roedd digwyddiad y prynhawn yn sesiwn agored i'r cyhoedd fynd i godi sbwriel wrth iddynt gerdded ar hyd y promenâd neu'r cob. Daeth 18 aelod o'r cyhoedd i gymryd rhan. Gyda'i gilydd, cafodd 8 bag llawn o sbwriel ei gasglu a'i adrodd ar wefan Caru Cymru. 4) Cyrtiau MUGA Llanfairfechan - mae rhwyd tennis ar olwynion wedi'i phrynu a'i gosod ar y cwrt MUGA glas. Bydd hyn yn caniatáu i symud y rhwyd tennis ar olwynion yn hawdd i ochr y cwrt pan na fydd ei angen ac yna ei symud yn ôl i'w le pan fydd ei angen unwaith eto. Roedd angen y math yma o rwyd gan fod y rhwyd flaenorol ar bolion sefydlog yn drafferthus i'w defnyddio ac yn cymryd llawer o amser i'w gosod. Roedd hyn yn golygu bod defnyddwyr yn colli amser yn ystod y sesiwn yn symud/gosod y rhwyd. Roedd hefyd yn golygu bod y rhwyd yn cael ei difrodi ac nad oedd modd ei defnyddio. Mae'r rhwyd newydd ar olwynion yn osgoi'r ddwy broblem yma ac nid oes angen ei symud a'i ail-osod yn rheolaidd sy'n difrodi'r rhwyd yn ei dro. Mae'r wybodaeth hon wedi'i rhannu ar gyfryngau cymdeithasol a'r wefan archebu sesiynau. Nodwyd bod cael y cyfieithiadau gan ein Swyddog Cydraddoldeb wedi helpu llawer i rannu'r neges hon pan gafodd y gwaith ei gwblhau. Mae llawer o bobl wedi cysylltu â ni dros yr wythnosau diwethaf i ddweud nad oes rhwyd tennis yn bresennol, sy'n dangos yr angen amlwg am un. 5) Prosiect Meinciau - Mae'r fainc ar Ffordd Aber bellach wedi'i hatgyweirio a'i pheintio. Diolch i'r gof Gareth Roberts am ei waith atgyweirio parhaus i'r Cyngor Tref. 6) Cyfethol - Mae 2 sedd wag o hyd ar y Cyngor Tref. Mae'r Dirprwy Glerc wedi siarad gyda 2 berson sydd â diddordeb mewn ymuno â'r Cyngor Tref ac mae'r trafodaethau hyn**

ar fynd. Ond nid oes unrhyw ymrwymiad wedi'i wneud ac felly rydym yn dal i fod yn agored i aelodau newydd. 7) Cofrestr Buddiannau - Mae Clerc y Dref yn y broses o uwchlwytho'r Gofrestr Buddiannau ar y wefan yn yr adran Gwybodaeth i Gynghorwyr gan fod hyn yn cyd-fynd â Chynghorau Tref eraill. 8) Archwiliad - Mae'r broses archwilio yn dechrau rŵan. Mae Clerc y Dref yn cwblhau'r Archwiliad ac mae angen ei anfon erbyn wythnos gyntaf mis Mai. Caiff y Pecyn Archwilio ei gyflwyno yn y cyfarfod nesaf i'r Cyngor ei adolygu. 9) Parc Sglefrio - Nodwyd bod twll mewn ramp yn y parc sglefrio. Mae'n dwll tebyg i'r un o'r blaen ac yn debygol o fod wedi'i achosi gan olwynion sgwter. Mae'r twll mewn rhan o'r rampiau na gafodd eu hadnewyddu yn ystod y gwaith atgyweirio diwethaf. Mae'r parc sglefrio ar gau ar y funud gyda'r giât wedi'i chloi. Mae'r swyddog chwarae o CBSC a'n contractwr lleol wedi archwilio'r parc sglefrio ac wedi awgrymu y dylai pob rhan nad oedd wedi'u hadnewyddu yn flaenorol gael eu hadnewyddu rŵan. Gofynnodd y Cyngor Tref i gael dyfynbris am y gwaith hwn erbyn y cyfarfod nesaf.

Cynigydd Cyng P Vangberg Eilydd Cyng C Roberts Yn unfrydol Penderfynwyd cymeradwyo a nodi

**6. Derbyn gwybodaeth bellach a chymeradwyo cynlluniau ar gyfer cefnogaeth AD 2026/27**

Roedd gwybodaeth am asesiad AD wedi'i dosbarthu yn flaenorol a'i nodi wedi'i darllen. Mae'r ymgynghorydd AD allanol y mae'r Cyngor Tref wedi bod yn ei ddefnyddio wedi ymddeol o hunangyflogaeth ac felly mae angen darparwr arall ar y Cyngor Tref ar gyfer cefnogaeth AD. Mae'r Cyngor Tref yn wynebu rhai heriau gan fod y tîm o staff wedi tyfu dros y blynyddoedd diwethaf ac o fis Ebrill 2026 ymlaen mae newidiadau mawr i gyfraith cyflogaeth. Mae angen i'r Cyngor Tref wneud yn siŵr ein bod yn cydymffurfio yn llawn. Bu trafodaeth am y 4 dewis sydd ar gael gyda sylwadau ar fanteision / anfanteision pob darparwr. Mae Un Llais Cymru yn darparu cymorth ymgynghori am ddim, gyda thempledi dogfennau ar gael am ddim ac yn darparu cyfradd ymgynghori ddyddiol o £478 y dydd. Byddai'n rhaid inni ddefnyddio'r gwasanaeth ymgynghori dyddiol er mwyn iddynt greu dogfennau penodol / diweddaru cytundebau inni / cynnal adolygiad i sicrhau ein bod yn cydymffurfio. Mae Peninsular eisoes wedi ymweld â swyddfa'r Cyngor Tref i gynnal 'asesiad effaith' am ddim (sydd wedi'i rannu gyda'r cynghorwyr) ac yn dangos y camau gweithredol y byddent yn eu cymryd i'n helpu i gydymffurfio. Mae cytundeb 12 mis ac mae ffi fisol o £255.67 (£3,068.04 y flwyddyn). Dyma'r dyfynbris mwyaf ond mae'n cynnwys yswiriant. Roedd teimlad bod Llanfairfechan yn 'gwsmer bach' i Peninsular a'u bod yn canolbwyntio ar/arbenigo mewn sefydliadau mwy. Roedd ganddynt hefyd ideoleg o 'reoli difrod pan fydd rhywbeth yn mynd o'i le' yn hytrach na chanolbwyntio ar atal hynny. Mae hyn i'w ddeall wrth weithio gyda sefydliadau sydd â channoedd o weithwyr ond nid ydy o'n ymddangos fel y dull cywir i'n sefydliad ni gyda dim ond llond llaw o weithwyr. Mae Croner yn canolbwyntio ar fusnesau bach, roedd eu gwasanaeth yn ymddangos yr un fath â'r hyn yr oedd Peninsular yn gallu ei gynnig ond roedd ganddynt ymagwedd wahanol o ganolbwyntio ar y rhannu rhagweithiol yn hytrach na'r rhannau adweithiol. Caiff hyn ei adlewyrchu yn eu cynnig sydd ddim yn cynnwys yswiriant ond mae'n cynnwys gwasanaeth EAP. Eu cost oedd £216.60 y mis (£2,599.20 y flwyddyn). Bright HR ydy'r pedwerydd gwasanaeth y mae'r staff wedi cysylltu â nhw. Nhw ydy perchennog/crëwr y feddalwedd AD gaiff ei gynnig gan Peninsular a Croner. Mae Bright HR hefyd yn darparu cyngor AD a gwasanaeth cefnogi, gan gynnwys EAP ac yswiriant. Yn hanfodol, mae eu cynnig hefyd yn cynnwys meddalwedd a chyngor Iechyd a Diogelwch nad ydy unrhyw un o'r lleill yn ei gynnig. Rhoddodd Bright HR ddyfynbris o £198.50 y mis. Fodd bynnag, bu i'r swyddogion sylwi fod hyn yn cynnwys adolygiad o gytundebau yn unig ac nid dogfennau polisi. Ar ôl siarad gyda Bright HR ar y ffôn eglurwyd y byddai hyn yn debygol o fod tua £10 ychwanegol y mis. Felly mae disgwyl i'r dyfynbris hwn fod yn £210 y mis (£2,520 y flwyddyn). Cynigwyd y dylai'r Cyngor Tref ddefnyddio Bright HR fel y contractwr AD / IaD, yn dibynnu ar y dyfynbris wedi'i ddiweddaru. Gofynnwyd i'r Clerc gael cadarnhad o'r dyfynbris ac adrodd yn ôl i'r Cyngor Tref.

Cynigydd Cyng A Hinchliff BEM Eilydd Cyng C Jones Yn unfrydol Penderfynwyd cymeradwyo a nodi

**7. Derbyn a chymeradwyo cais grant ar gyfer Cronfa Effaith Balchder Bro Sir Conwy**

Mae'r Clerc a'r Dirprwy Glerc wedi methu â chael dyfynbrisiau ar gyfer y prosiect gan nad ydy'r contractwyr eisiau'r gwaith neu eu bod yn rhy brysur i allu rhoi dyfynbris o fewn yr amserlen. Mae gan Glerc y Dref nifer o bryderon ac mae'n debygol y bydd yn rhy anodd cyflwyno'r cais hwn ar amser. Bu awgrym nad ydy'r Cyngor Tref yn ymgeisio am y grant. Gofynnwyd i'r Clerc anfon e-bost at y tîm hwyluso grantiau i egluro y byddem wedi hoffi ymgeisio am y grant, ond fod yr amserlen yn rhy dynn ac yn anghyraeddadwy.

Cynigydd Maer N Jones Eilydd Cyng A R Jones Yn unfrydol Penderfynwyd cymeradwyo a nodi

**8. Derbyn a chymeradwyo grantiau s137**

Ffi llogi ystafell flynyddol Clwb Brecwast Cyn-filwyr Llanfairfechan - Roedd y Cyngor Tref yn disgwyl cais grant gan Glwb Brecwast Cyn-filwyr Llanfairfechan, ond nid ydy'r cais wedi dod i law. Bu i'r Maer Nia Jones wirfoddoli i gysylltu gyda'r grŵp a gofyn iddynt gyflwyno cais grant ffurfiol.

Cais blynyddol Neuadd Gymunedol Llanfairfechan - Mae pwyllgor Neuadd Gymunedol Llanfairfechan wedi cyflwyno ei gais grant blynyddol sydd fel arfer wedi'i gymeradwyo dros y blynyddoedd diwethaf. Maent wedi gofyn am £5,000, sef yr un swm gafodd ei ofyn amdano ag o'r blaen. Mae'r cais grant yn nodi: "Bydd y grant hwn yn ein helpu gyda'r rhandaliad olaf ar gyfer gosod ein system paneli solar diweddar a chamau olaf o waith adnewyddu'r to - sef

arian cyfatebol ar gyfer y Gronfa Datblygu Gymunedol gafodd ei sicrhau ym mis Awst 2025. Mae cyfanswm cost ein gwaith adnewyddu yn debygol o fod tua £450,000. Hyd yma, rydym wedi sicrhau cyllid o dros £200,000 ac rydym bron wedi cwblhau cam cyntaf y gwaith adnewyddu drwy fynd i'r afael â'r materion mwyaf brys gyda'r neuadd. Ffigyrau cyfredol: 6000+ o bobl wedi mynychu dros gyfnod o 12 mis, 19 o sesiynau iechyd a lles y cael eu darparu bob wythnos, 21 o grwpiau cymunedol yn ystod y flwyddyn, o leiaf 12 digwyddiad cymdeithasol ar raddfa fawr dros gyfnod o 12 mis, 8 marchnad Bwyd a Chrefftwyr lleol dros gyfnod o 12 mis." Nid oedd ymddiriedolwyr a swyddogion y Neuadd Gymunedol yn cael pleidleisio. Cynigwyd cymeradwyo'r grant.

Cynigydd Cyng P Vangberg   Eilydd Cyng A R Jones   Yn unfrydol   Penderfynwyd cymeradwyo a nodi

**9. Derbyn ac ystyried cais am gymorth ar gyfer croesfan i gerddwyr y tu allan i Ysgol Pant y Rhedyn**

Mae Pennaeth Ysgol Pant-y-Rhedyn wedi cysylltu gyda'r Maer Nia Jones i ofyn "Rydw i'n gobeithio y gallwch godi hyn ar fy rhan. A oes modd i'r Cyngor archwilio ac efallai ymchwilio i ble fyddai'r Cyngor Sir yn gosod croesfan y tu allan i'r ysgol? Byddai hyn yn arafu ceir sy'n gyrru ymhellach ac efallai yn helpu teuluoedd sydd eisiau croesi'r ffordd ger yr ysgol. Byddai hefyd o gymorth inni pan nad ydy'r patrôl croesi ffordd yno." Nododd y Cynghorwyr ei fod yn debygol o fod yn gostus iawn ac yn debygol o gael ei wrthod gan y Cyngor Sir. Roedd y Cynghorwyr yn cytuno y byddai'r groesfan yn ddarpariaeth bwysig o ran diogelwch ffordd. Cynigwyd anfon llythyr at CBSC i ddweud bod y pennaeth wedi gofyn am groesfan, a bod y Cyngor Tref yn cefnogi hyn yn llawn i weld a fyddai'r Cyngor Sir yn gallu gosod un. Y Clerc i adrodd yn ôl i'r pennaeth a'r Cyngor Tref gyda'r canlyniad.

Cynigydd Cyng P Vangberg   Eilydd Cyng L Farhat   Yn unfrydol   Penderfynwyd cymeradwyo a nodi

**10. Derbyn a chymeradwyo adroddiadau ariannol a thaliadau cyfredol ar gyfer Ebrill 8fed, 2026**

Roedd Adroddiadau Ariannol a Thaliadau Cyfredol wedi'u dosbarthu yn flaenorol a'u nodi wedi'u darllen. Cododd Clerc y Dref fod taliad Delwedd yn £1,491.12. Mae hwn yn gyfuniad o anfonebau sydd i gyd yn dod at ei gilydd i berfformio'r prosiect mudo ebost a pharth sydd eisoes wedi'i gytuno arno. Dyma uchafswm cost y prosiect ac mae lle am drafodaethau o hyd. Mae'r prif newidiadau yn y costau yn dod o'r math o drwydded meddalwedd ebost yr ydym ei eisiau ac os ydy'r cynghorwyr eisiau i'w data ebost gael ei fudo i'r system newydd. Gofynodd y cynghorwyr, hyd yn oes os nad ydy'r cynghorwyr eisiau trosglwyddo ebost i'r system newydd, bod yr holl hen ddata ebost yn cael ei allforio mewn ffolder fawr y mae modd ei storio yn ddiogel rhag ofn y bydd ei hangen yn y dyfodol ac ar gyfer ceisiadau rhyddid gwybodaeth. Bydd y cynghorwyr yn ystyried a ydyn nhw am i'w ebyst gael eu mudo yn y dyfodol. Cytunwyd y dylai swyddogion barhau â'r gwaith o drafod y prosiect hwn a rhoi gwybod i'r llofnodwyr am unrhyw newidiadau i'r costau – cafodd y Cyngor Tref sicrwydd y byddai unrhyw newid yn llai na'r ffigyrau sydd wedi'u nodi gan na fydd angen rhai o'r gwasanaethau sydd wedi'u nodi ar y dyfynbris. Ar fater arall, codwyd bod y cronfeydd wrth gefn yn debyg i beth oedd yno y llynedd. Mae hyn yn gadarnhaol iawn ac yn ein cadw'n ddiogel yn ariannol. O ran y MUGA, cynigwyd bod y pwyllgor cyllid yn rhedeg drwy'r ffigyrau yn eu cyfarfod nesaf a chynnig unrhyw ostyngiadau dros yr haf i drigolion.

Cynigydd Maer N Jones, Eilydd Cyng P Vangberg   Yn unfrydol   Penderfynwyd cymeradwyo a nodi

**11. Derbyn gwybodaeth am faterion cynllunio**

**0/53292 - Tri Saeth Parc Penmaen Llanfairfechan LL33 0RN** - Codwyd bod pryder bach am goeden geirios fach gan ei fod yn aneglur a fyddai angen ei symud ai peidio. Does dim pryder am y gwaith adeiladu ei hun. Cytunodd y Cyngor Tref y dylai'r ymgeisydd ddilyn cyngor Swyddogion CBSC. Clerc y Dref i adrodd yn ôl i'r Cyngor. Penderfynwyd derbyn a nodi

**12. Derbyn gohebiaeth**

**Safle tacsi ar Ffordd y Pentref** – Mae CBSC wedi cadarnhau bod y safle tacsi ar Ffordd y Pentref wedi'i ddirymu a'i ddisodli gan 'Gyfyngiad Aros Cyfyngedig o 120 munud, Dydd Llun i ddydd Gwener, 9yb – 5yp, dim dychwelyd o fewn 120 munud.' Mae gorchymyn gwaith wedi'i gyflwyno i dynnu'r arwydd safle tacsi presennol a gosod yr arwydd newydd sy'n dangos y cyfyngiad aros cyfyngedig.

**Problemau gydag elyrch** – Mae trigolion wedi adrodd bod yr elyrch wrth y llyn cychod yn nythu ar y llwybr troed. Mae Clerc y Dref wedi rhoi gwybod am hyn i CBSC sydd wedi dweud y byddant yn anfon swyddog i ymchwilio. Ers hynny, mae rhwystrau metel wedi'u gosod ger yr ymylon.

**Trigolion yn adrodd am godi sbwriel** - Mae trigolyn wedi bod yn anfon diweddariadau o'i waith codi sbwriel. Mae'r Dirprwy Glerc wedi bod yn uwchlwytho dyddiad y sesiynau codi sbwriel ar borth Cadwch Gymru'n Daclus. Roedd y Dirprwy Glerc eisiau i'r Cyngor Tref wybod am hyn gan fod y trigolyn hwn wedi bod yn gwneud hyn ei hun ac wedi bod yn rhagweithiol iawn. Bu awgrym y dylid anfon neges o ddiolch i'r trigolyn - Clerc y Dref i wneud hyn.

**13. Derbyn adroddiadau o gyfarfodydd a digwyddiadau:**

**Cymorth Cynllunio Cymru - Gwella ein Lleoedd Lleol** – Aeth y Cyng Sharne- Marie Bellis i'r cyfarfod gyda Chymorth Cynllunio Cymru. Bu i'r cyfarfod ddangos yr effaith gadarnhaol y mae'r Cynllun Lle wedi'i chael ar 2 dref fel

**astudiaethau achos. Roedd yn dangos pwysigrwydd y Cyngor Tref yn gweithio gyda'r trigolion i ofyn iddynt beth oeddent ei eisiau. Roedd yn ddiddorol gweld sut roedd y trigolion yn fwy cadarnhaol ac yn derbyn yn well y newidiadau a'r effaith ar les trigolion. Roedd hefyd llawer o syniadau da wedi'u cynnig gan drigolion oedd modd eu mabwysiadu yn y Cynllun Lle. Mae tudalennau'r cyflwyniad wedi'u hanfon at Glerc y Dref fydd yn eu rhannu gyda'r holl gynghorwyr.**

**<u>Sesiynau Codi Sbwriel Gwanwyn Glân Cymru</u> - Nododd y Dirprwy Glerc fod hyn eisoes wedi'i godi ar y Rhestr Weithredu a doedd dim byd ychwanegol i'w ychwanegu.**

**<u>Cyllid Dewi Sant a Hybiau Cynnes</u> - Nododd Clerc y Dref pa mor werthfawr oedd y Swyddog Cydraddoldeb wrth roi'r digwyddiad hwn at ei gilydd. Nododd y pennaeth drwy e-bost bod y disgyblion wedi cael amser gwych a'r prosiect wedi cael effaith gadarnhaol iawn. Mae'r Awdurdod Addysg yn defnyddio'r prosiect fel enghraifft o arfer da ac wedi'i anfon at holl ysgolion Conwy. Adroddwyd y bydd yn helpu'r ysgol i fodloni'r meini prawf Cymraeg y cawsant eu beirniadu arno y tro diwethaf iddynt gael adolygiad arolygiaeth Estyn.**

**<u>Grŵp Ynni Cymunedol</u> - Y Dirprwy Glerc ydy cadeirydd y grŵp (gwirfoddoli ar wahân i'r Cyngor Tref). Mae llawer o ddatblygiad wedi bod mewn cyfnod byr o amser. Mae'r grŵp wedi ailddechrau ar ôl cyfnod o absenoldeb. Mae gan y grŵp bellach: gynllun hyfyw ar gyfer ynni solar gyda chynllun drafft 12 mis ar gyfer cwblhau'r prosiect, ar hyn o bryd yn ceisio dyfynbrisiau ar gyfer astudiaethau dichonolrwydd ar gyfer gwaith dŵr a phŵer gwynt, mae ganddynt gyllid grant ar gael i ddechrau prosiectau gyda chyllidwyr posibl ar gyfer prosiectau ar raddfa fawr, wedi cael eu hymgynghori i sefydlu fel CIC ac yn y broses o gymeradwyo hyn. Mae'r grŵp angen recriwtio trysorydd. Mae'r cyfarfod agored nesaf ar Ebrill 23ain am 7:30yh yn Siambr y Cyngor, Neuadd Gymunedol ac mae croeso i bawb. Roedd y Cyngor Tref yn croesawu'r datblygiad hwn ac roedd diddordeb yn sut y byddai pethau yn datblygu ymhellach.**

**<u>Gweithgor Amddiffyn rhag Llifogydd</u> - Mae'r Dirprwy Glerc wedi cael cyfarfod diweddaru misol arall gyda thîm Amddiffyn rhag Llifogydd CBSC ac mae'r cyfarfodydd prosiect newydd hyn yn mynd yn dda. Ar Ffordd Glanmor a ffyrdd mynediad, mae'r contractwr wedi gwneud gwaith paratoi ar gyfer gosod y rhwystrau datgymaladwy mewn 3 lleoliad. Caiff braced ei bolltio i bob un o'r pileri concrit bach - 2 fesul lleoliad - a fydd yn dal yr estyll rhwystr pan fydd angen mewn sefyllfaoedd o lifogydd. Mae'r contractwr hefyd yn adeiladu blociau storio bach ar y safle fydd yn cael eu defnyddio i storio'r rhwystrau pan na fyddant yn cael eu defnyddio. Rydym yn dal i aros am ddyddiad cwblhau ar gyfer y falf fflap ar y draen sy'n achosi llifogydd o dan y bont ar Ffordd Ddwyreiniol y Traeth.**

**<u>Menter Iaith Conwy</u> - Cafodd y Cynghorydd Alun Rhys Jones gyfarfod gyda'u swyddog Catrin. Roedd cwestiwn gan Catrin gan ei bod hi'n ansicr am gynlluniau digwyddiadau yn y dyfodol, yn benodol yr Ŵyl Ferlod. Rhoddodd Glerc y Dref drosolwg byr bod y Cyngor Tref yn talu am un sesiwn llusernau a gorymdaith. Y darn sydd ar goll ydy'r Twmpath, sesiynau llusernau ychwanegol, teithiau cerdded mynydd diwylliannol ayb. Mae cyfarfod wedi bod gyda Manon ynglŷn â rhoi grant Cyngor y Celfyddydau at ei gilydd a'i gysylltu ag Wythnos Gelfyddydau Llanfairfechan. Grwpiau gwirfoddol, nid y Cyngor Tref, sy'n arwain y broses cyllid grant hon. Nodwyd y byddai'n ddefnyddiol pe bai Menter Iaith Conwy yn gallu darparu grant neu gymorth cyfatebol ar gyfer y cais i'r Cyngor Celfyddydau. Dywedodd y Cyng Alun y byddai'n adrodd yn ôl i Fenter Iaith Conwy.**

**<u>Darganfod Llanfairfechan</u> – Mae'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol wedi'i ohirio tan nos Fawrth Mai 5ed am 7:30yh yn y Split Willow.**

**<u>14.Derbyn canmoliaethau, cwynion a materion brys i'w hystyried a'u cofnodi ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol.</u>**

**<u>Zax Hairdressers</u> - Mae'r perchennog presennol yn gorffen ac yn trosglwyddo'r busnes ar Ebrill 17eg. Mae'r perchennog presennol wedi bod yn y pentref ers 26 mlynedd ac mae hi wedi bod yn foesegol iawn ynglŷn ag i bwy y mae hi'n trosglwyddo'r busnes iddo, gan sicrhau ei fod yn aros fel perchnogaeth leol. Bu awgrym i'r Cyngor Tref anfon cerdyn o ddiolch a gwerthfawrogiad.**

<u>Penderfynwyd derbyn a nodi</u>

<u>Daeth y cyfarfod i ben am 20:55</u>